Examen quotidianum

Ymboliad beunyddiol.

NEU,

Gyhyddiad pechod ar orseddfarn cydwybod, a dynnwyd allan o bregeth y gwir barchedig dêd, Archescob Armach, Primat y Werddon: yr hon y draethodd ef, yn Lincolns Inn y trydydd dydd o ragfyr. 1648.

Ac a gyfieythwyd yn gymraeg, er mwyn cyfarwyddo, ac hyffordd i fynghydwladwyr o Gymru yn y gwasanaeth hwnnw.

Profwch bob peth, deftwch yr hyn sy dda.
1 Thes. 5. 21.

A beintiwyd yn Rhydyclas yn *Leonard Lichfield*, ac ar werth gida *John Adams* yn ywy Porth y Twri yn agos at Gloeg
[illegible] 1658.

Smock of the B. Virgin, the Hose of Sainte Ioseph, and many other reliques Meditate howw ioyfully one day God the Father vvil giue him selfe to the powver of thy memory.

The. 362. day *At Mastrike is the body of Saint Seruace closed, our Sauiour is the fourth degree* Thinke howv sweverly they Sonne of God shal be vvholie enclosed in the powver of thy vnderstandinge.

The. 363. day, Meditate howv comfortably the Holy Ghoste like running streames of vvater, shal be continualy powvringe in the desiers of thy harte, vvith great and vnspeakable svveetnes to thy sovvle

The. 364. day, Meditate howv the Holy Trinitie shal aboundantly fille thee vvith al kinde of heauenly delightes in his glorious kingdome of Paradise, yea vvith much more then eie hath seene, eare hath heard, or the harte of man is able to conceiue.

The 365. day. *At thy lodging in London, or from vvheue thou departedst.* Meditate howv al faithfull Pilgrimes, after this mortal Pilgrimage, shal be in greate ease, rest, and svvetnes for euermore, and shal remaine happie vvith out end. The vvhich, the Holy Trinitie, by the intercession of the Blessed mother, and of al Saintes graunte vs, Amen.

Examen quotidianum

Ymholiad beunyddiol.

NEU,

Gyhyddiad pechod ar orſeddfarn cydwybod, a dynnwyd allan o bregeth y gwir barchedig dâd, Archeſcob Armach, Primat y Werddon: yr hon y draethodd ef, yn Lincolns *Inn* y trydydd dydd o ragfyr. 1648.

Ac a gyfieythwyd yn gymraeg, er mwyn cyfarwyddo, ac hyfforddi ſynghydwladwyr o Gymru yn y gwaſanaeth hwnnw.

Profwch bob peth, deliwch yr hyn ſy dda.
1 Theſ. 5. 21.

A brintiwyd yn *Rhydychen* gan *Leonard Lichfield*, ac ar werth gida *Iohn Adams* yn ymyl Porth y Twrl yn agos at Goledg yr IESU. 1658.

BIBLIOTHECA BODLEIANA

Ymholiad beunyddiol.

PSAL. 4. 4.

רגזו ואל-תחטאו אמרו בלבבכם
משכבכם ודמו סלה

OFnwch, ac na phechwch, *ymddiddenwch ach calon*, ar eich gwely, a thewch, Selah..

Ymmhôb peth ymddiddan ath di dy hûn, fel hyn, Ai felly i gwneit peteit yn gwybod mae 'r awr hon yw'r awr ddiweddaf oth einioes. *S. Bernard.*

Μηδ' ὕπνον μαλακοῖσιν ἐπ' ὄμμασι
προσδέξασθαι,
Πρὶν τῶν ἡμερινῶν ἔργων τρὶς ἕκα-
στον ἐπελθεῖν·
Πῇ παρέβην; τί δ' ἔρεξα; τί μοι
δέον οὐκ ἐτελέσθη;
Ἀρξάμενος δ' ἀπὸ πρώτου ἐπέξιθι·
καὶ μετέπειτα,
Δειλὰ μὲν ἐκπρήξας ἐπιπλήσσεο· χρη-
στὰ δὲ τέρπου· *Pythagoras.*

Faciebat hoc Sextius, ut consummato die cum se ad nocturnam quietem recepisset, interrogaret animum suum. Quod hodie malum tuum sanasti? cui vitio obstitisti? Qua parte melior es? *Senec. de ira lib. 3. c. 36.*

Senec. Epist. 83.

Observabo me protinus, &

& quod eſt utiliſſimum, diem meum recognoſcam: Hoc nos peſſimos facit, quod nemo vitam ſuam reſpicit.

Mi a edrycha yn fanwl arna fy hûn ac fel y mae goreu ar fy llês, mi a yſtyria, ac a adgofia bôb diwrnod 'om einioes; o herwydd hyn yr ydym ni yn myn'd yn waethach waethach, nad oes neb yn gwilied ar ei fuchedd, *medd Seneca.*

Learne hereby to turne to the Welch texts in the Engliſh Bible. The names of the other books being not much different for the reader.

Barnwyr. *Iudges.*
1 Brenhinoedd. 1 *Kings.*
2 Brenhinoedd. 2 *Kings.*
Diharebion. *Proverbs.*
Pregethwr. *Eccleſiaſtes.*
Caniadau Salomon *The Song of Solomon.*
Galarnad. *The Lamentations of Jeremiah.*
Rhufeiniad. *Romanes.*
St Jaco. St *James.*
Datcuddiad. *Revelation.*

Amryw reſwmmau,

i ddangos fôd yn dra-anghenrhaid, i bawb ymholi i hunain beunydd.

1. YN gyntaf, O herwydd bôd briwiau newydd yn hawdd i hiachau, ac nid oes dim yn llygru yn gynt, ac yn fwy enbyd a Fiaidd na phechod: Pan darawyd calon Dafydd yn ebrwydd am dorri ymyl gwiſc Saul, ni chlowodd ef mwy oddiwrth y peth: Ond

y pechod hwnnw gyda gwraig Urias (yn yr hwnn y gorweddodd ef cyd) a ddrylliodd ei eſcyrn ef, fel y mae yn amlwg yn ei weddi ef, Pſal. 51.8. Pâr i mi glywed gorfoledd, a llawenydd; fel i llawenycho yr eſcyrn a ddrylliaiſt.

2. Yn ail, yr wyt yn cryffhau dy gôf wrth hynny (fy enaid :) oblegid os mewn cyfri o ûn diwrnod ir anghofîr llawer o bechodau, pa faint a anghofir, os oedir y peth tros lawer o ddyddiau.

3. Yn drydydd, gwedi rhannu pechod yn ddrylliau fel hyn, fe ellir i drîn ef yn hawdd, megis pren mawr gwedi i dorri yn ddarnau neu i hollti yn yſcyrrion mân.

4. Yn bedwerydd, wrth wneuthur hynn (o fy enaid) yr wyt ti yn achub y blaen ar achwyniaeth Sathan, cyhuddwr y Brodyr, yr hwn yn ddiammau ſydd yn craffu yn ddiball ar dy droſſeddau beunydd: Pa gyſſur it ymerfyn, a chael maddeuant cyn gallu o honaw ef ddwyn achwyniaeth ith erbyn?

5. Yn bummed, O fy enaid, yr wyt ti beunydd, yn edrych am bôb peth arall ſydd eiddot, megis dy dy, dy dîr, dy anifeiliaid, dy ddillad, a pha beth bynnag fydd gennit a ddichon ammharu, neu wellhau beunydd: O! pa gwîlydd it (fy enaid) dy fôd ti dy hûn mor ddiyſtyriol, ac

mor ddiofalus am danat dy hûn?

6. Yn chweched, ni chenhadwyd i ti einioes ond ir gwaith yma, pa ddibenion bydol bynnag (heb law hynny) yr wyt ti yn i oſod i ti dy hûn, ac ni wyddoſt os eſceuluſu yr odfa yma, pa un a wneir ai caniadhau i ti ddim mwy amſer ond hynny. Datc. 2. 21. Ac mi a roddais iddi amſer i edifarhau am ei godineb, ac nid edifarhaodd hi.

7. Yn ſeithfed, os cyflowni hyn yn ddiwyd, ac yn ddyfal bob nôs a boreu, ni bydd i ti (o fy enaid) ond ûn dydd i atteb am y cwbl oll, wrth dy madawiad or byd yma; a pha eſmwythder calon, a

thawelwch cydwybod fydd hynny i ddyn ar ei dranc?

Fiet ut minus ex craſtino pendeas, ſi hodierno manum injeceris. Senec. Epiſt. 1.

Fe fydd llai iti i wneuthud y fory, os gwnei di y goreu or dydd heddyw.

Pan ddarffo i rhain neu 'r cyffelib yſtyriaethau weithio arnat, a rhoi goleuni i ti ynghylch angenrheidiaeth yr ymholiad beunyddiol hyn, a chynnhyrfu dy galon ag awyddchwant ir peth: Dôs ymlaen yn ol y rheol yma neu'r cyffelib.

Ymhola { Dy feddyliau. Dy eiriau. Dy weithredoedd.

ar fyr wrth y trî gair hyn } Yn ſobr. Yn gyfiawn. Yn ddûwiol.

Titus 2.12, Gan ein dyſcu ni i wadu annuwioldeb, a chwantau bydol, a byw yn ſobr, ac yn gyfiawn, ac yn dduwiol, yn y byd ſydd yr awron; Neu yn helaethach wrth y dêg gorchymmyn Fel hyn. O fy enaid a fu'm i heddiw

a. Yn Sobr yn fy } Meddyliau. Ngeiriau. ngweithredoedd

b. Yn Gyfiawn yn fy } meddyliau. ngeiriau. ngweithredoedd

c. yn Dduwiol yn fy } meddyliau ngeiriau ngweithredoedd

Aros ar bôb un o'rhain yn bennodol, ac yn yſtyrriol, a choffa yr holl leoedd, y cyfeillion, ar negeſſau yn y rhai i treiliaiſt dy amſer y dydd hwn.

Yn enwedig ymhola.

- Dy feddyliau pan oeddit wrthyt dy hûn.
- Dy eiriau gidag eraill.
- Dy weithredoedd ymhôb un o rhain.

Ag i eglurhau yr hyn aeth ymmlaen, gwybydd mae,

a. Bôd yn ſobr, ydyw yn ymfredin cadw cymhwyſder gweddol ymhôb peth, an cymhedroli ein hunain yn ddoſaidd, ac yn bwyllig yn ein gwynniau, an hanwydau,

ar fyr wrth } Yn ſobr.
y trî gair } Yn gyfiawn.
hyn } Yn ddûwiol.

Titus 2.12, Gan ein dyſcu ni i wadu annuwioldeb, a chwantau bydol, a byw yn ſobr, ac yn gyfiawn, ac yn dduwiol, yn y byd ſydd yr awron; Neu yn helaethach wrth y dêg gorchymmyn Fel hyn. O fy enaid a fu'm i heddiw

a. Yn Sobr yn fy } Meddyliau. Ngeiriau. ngweithredoedd

b. Yn Gyfiawn yn fy } meddyliau. ngeiriau. ngweithredoedd

c. yn Dduwiol yn fy } meddyliau ngeiriau ngweithredoedd

Aros ar bôb un o'rhain yn bennodol, ac yn yſtyrriol, a choffa yr holl leoedd, y cyfeillion, ar negeſſau yn y rhai i treiliaiſt dy amſer y dydd hwn.

Yn enwedig ymhola.

- Dy feddyliau pan oeddit wrthyt dy hûn.
- Dy eiriau gidag eraill.
- Dy weithredoedd ymhôb un o rhain.

Ag i eglurhau yr hyn aeth ymmlaen, gwybydd mae,

a. Bôd yn ſobr, ydyw yn gyffredin cadw cymhwyſder gweddol ymhôb peth, an cymhedroli ein hunain yn ddoſaidd, ac yn bwyllig yn ein gwynniau, an hanwydau,

bôd yn rheſymmol yn ein chwantau an digrifwch, yn dumm herus yn ein bwyd an diod, yn weddaidd ac yn ddiſyml yn ein dillad, an trwſiad, yn rheolus yn ein llawenydd an difyrrwch, yn gall a medrus yn ein ymddiddanion, an ymadroddion, ac yn gymheſurol ymmhôb peth a wnelom. Ac am hynny ymhola dy hûn, pa un a wnaithoſt ai bôd yn ſobr yn ol y moddion neilltuol hynny, yn dy feddyliau, dy eiriau, dy weithredoedd y dydd hwn; ac os deallu di dy fôd felly, dyro ddiolch i Dduw, a gweddia am barhâd diyſcog a dianwadal: Ond lle i ceffech y gwrthwyneb cais taddeuant, â chymmer

lwyrfryd (neu reſolution) yn erbyn hynny rhagllâw.

b. Bôd yn gyfiawn ar feddwl, gair, a gweithred ydiw gwneuthur mor union a ffawb ac i bawb, ac i mynnit i eraill wneuthur i tithau, a hynny yn ôl hyfforddiad, a cynhwyſiad yr yſcrythyrau; a hynny hefyd tu a pherſon, enaid, corph, enw, a chyflwr pôb dyn; Talu a gwneuthur yr hyn ſydd ddyledus ar bawb, yn ôl eu lleoedd, eu graddau, ai galwedigaeth pa ûn bynnag fônt ai uchelradd, iſelradd neu gydradd, ac ymholadỳ hûn wrth y cyfarwyddiad hyn, a fuoſt yn gyfiawn y dydd hwn, ac fel y deellech dy fôd dôs ymlaen yn ôl y rheol ar hyfforddiad,

ſydd yn yr hyſpyſiad a gefaiſt ynghylch ſobrwydd.

c. Bôd yn Dduwiol ydiw adnabod Duw, ymarferu a cheiſio chwanegu y gwybodaeth ſydd gennit o honaw ef, i gofio ef yn fyfyriol, ymddiried a gobeithio ynddo, bôd gennym gariad, zêl ac awyddfryd yſprydol tu ag atto, ymlawenhau yntho, bôd yn ddiolchgar ac yn uſydd iddo, bôd yn ddioddefgar, ac yn ddaroſtyngedig tan ei alluog law ef, i ofni ef, ai addoli, ai anrhydeddu yn fawrygus, bôd yn ddrwg gennym ddarfod i ni i anfoddloni, ai ddigio ef, i waſnaethu ef yn gywir ac yn ffyddlon, gweddio arno ef yn ddefoſionol, darllen a gwran-

do ei air ef, a hynny yn ddiwyd ac yn ofalus, ſanctteiddio ei enw ef yn ddifrifol ai ogoneddu ym hôb peth i gwneir ef yn gydnabyddus i ni, ymhola dyhûn, pa ûn a ddarfu i ti ai gwneuthur yn ol, neu yn erbyn yr agweddau pennodol hynny, ac yno dôs rhagot megis yn ôl y cyfarwyddyd or blaen

Yn enwedig, ac yn fwy hyſpyſſol fe orfydd i ti (o fy enaid) chwilio yn ddyfal, nes cael gwybodaeth ſiccr oth bechod meiſtrolûs, er mwyn pa ûn ir wyt yn gwneuthur y rhann fwya oth bechodau eraill; Megis os Cybydddod fydd dy bechod meiſtrolûs, dy bechodau eraill fyddant megis llaw forwynion iddo,

oblegid

oblegid odid o bechod nas gwnei er mwyn cyflowni dy drachwant ir pechod hwnnw: Ti a ddianrhydeddu Dduw, ti a dyngu, ti a halogi ddydd yr Arglwydd, ti a fyddi yn anufydd ir blaenoriaed, ar ſwyddogion awdurdodawl, ti a leddi, ti a wnei odineb, ti a ledretti, ti a dyngu anudon gan ddwyn cam dyſtiolaeth, ar cwbwl i borthi a rhyngu bôdd dy gybydddod. Ac yn yr ûn môdd i bydd, os balchder, neu riw bechod arall ſydd yn meiſtrôli, ac yn dwyn rhwyſc ac yn llywodraethu arnat.

Ac

Ac os mynni di i adnabod.

Hwnnw iw

1. Yn gyntaf, yn ghylch yr hwn, ac ar yr hwn y mae dy feddwl yn oſodedig yn fynychaf, Ac fel ir oedd Dafydd pan ddefroei gyda Duw felly y byddi dithau gyda ath bechod anwyl rheolus.

2. Yn ail, Ni elli ddioddef cyfwrdd ag ef, na thrwy dy ymholiad dy hûn, nag argyhoeddiad rhai eraill.

Pan gaffech wybodaeth ſicer or pechod hwnnw, ſydd yn dwyn y fâth rwyſc a llyfodraeth ynot, ac megis yn llyſco dy bechodau eraill ar i ôl, Dôs at yr Arglwydd, ag

ochneidiau trummion ag ef-
fyniadau difrifol, a gweddiau
gan ddywedyd.

O fy Nuw trugarog, a thi-
rion, dyro i mi râs i wîr dri-
ſthau, a bôd yn drwm alarus
am yr hyn aeth heibio, ac i
ymroi yn ebrwydd mewn
llwyrfwriad cryf, a llown-
fryd yn ei erbyn: Ac am yr
amſer ſydd yn dyfod i wneu-
thur fyngore ymmhôb mo-
ddion na chaffo'r gelyn penna
ymma i'm henaid moi groe-
ſafu gyda mi mwy. A phan
ddatcuddier i ti dy bechodau
a wnaethoſt y dydd hwnnw,
y mae yn rhaid i ti gael gwy-
bodaeth teimladwy oi gor-
thrymderau ai ffieidddra
hwynt, rhag i ti fyned heibio
iddynt yn rhy yſcafn ac heb

graffſynniad arnynt ac am hynny fe orfydd i ti i barnu hwynt drwy ddwys yſtyrried y rheſwmmau ſydd yn canlyn, gan ddywedyd wrth dy enaid. Yn gyntaf, (O fy enaid) fe ddarfu i ti drwy aml ac amryw bechodau y dydd hwn, ymadel ac ymwrthod a Duw, yr hwn a ddyleſit i ymlynu wrtho yn gyfangwbwl, o herwydd i fôd ef yn odidawg rhagorol, ac yn hawddgar ynddo ei hûn, ag yn drahaelionus tu ag attat titheu.

2. Yn ail, Ti ai gwrthodaiſt ef am bethau diyſtyr, gwael a dibris, ſef am dippin o elw, fel Judas, neu ddigrifwrth bychan, fel Eſau, ac yr wyt yn beio arnynt hwy megis

gis rhai drugionus am y peth a wnaethont hwy, ac a dybi di yn well na hynny o honot dy hûn, a thitheu yn gwneuthur y cyffelib. O fy enaid, ti a ymadewaiſt ac a ymwrthodaiſt a Duw am bethau darfodedig, a phe baent yn parhau ni allent nath fodloni, nath achub rhag angeu, na barnedigaeth, a pha leia oedd yr annogaeth at y petheu hynny, mwya oll oedd dy fai, ath gamwedd; yn enwedig os tyngaiſt, yr hwn ſydd yn bechod i mae dynion yn ei wneuthur yn rhâd ac yn fynychaf. Barn y rhain a ellir i weled *Pſal:* 25. 2. O fy Nuw, ynot ti 'r ymddiri edais, nam gwradwydder: na orfoledded fyngelynion arnaf.

3

3. Yn drydydd, Ti a droſeddaiſt yn erbyn gorchymyn dy Dduw graſuſol, (o fy enaid) ac y mae ef megis yn dywedyd wrthyt, fel i dywedodd wrth Addâ, a fwyttaiſt di or pren y gorchymynaſwn i ti na fwytteit o honaw? a ddarfu i ti feddwl, neu ddywedyd, neu wneuthur y dydd hwn y peth a waherddais i ti?

4. Yn bedwerydd, O fy enaid ni ddarfu i ti droſeddu yn erbyn ei ſanctaidd orchymyn ef yn unig ond hefyd er rhoddi o honof it gymorth i gadw ei orchymyn; ſe rodd Duw ei râs i ti, ac ni ddarfu i ti i drîn fel i dyleſit, y mae ychydig râs yn fawr ei nerth

nerth ai rhinwedd, a thi a alleſit wrth hynny gadw gair Duw'. Dat. 3. 8. Mi a adwaen dy weithredoedd: wele, rhoddais ger dy fron ddrws agored ac ni ddichon neb ei gau: canys y mae gennit ychydig nerth, â thi a gedwaiſt fy ngair: ac ni wedaiſt fy enw. Ond fe ddarfu i ti (o fy enaid) dderbyn grâs Duw yn ofer.

Pe iawn farnem ni ein hunain, ni 'n bernid, 1 *Cor.* 11, 31.

Gwedi darfod i ti gael gwybodaeth o echryſder dy bechod, ath fôd felly yn wîr euog o honaw, Beth ſydd yn anghenrhaid i ti (o fy enaid)

ond

Ond dy euogfarnu dy hûn, a dywedyd (o fy enaid) pa fodd y gall fôd na wrthodo Duw di hefyd, a chymeryd ymaeth ei yſpryd, ei radau, ai Angylion oddiwrthit, ath adel di heb gyfarwyddid ag amddiffynnwr, ir Cythrael, ar byd, ar cnawd ith ymlid. Yſtyrria bellach pa un a wnei di ai gallel cyſcu yn ddiofal yn y fâth gyflwr; O gan hynny rhag i ddialedd dy orddiwes, ac er mwyn cael ynill drachefn y rhan oedd gennit or blaen yn Nuw, cyrch atto efyn gyflym, ac yn ddifrif yn y weddi ymma neu 'r cyffelib. O Arglwydd bendigedig, fe ddarfu i mi y dydd hwn yn fynych drwy anghymedroldeb, anghyfi-

owndeR, ac annuwioldeb ar feddwl, gair, a gweithred dy adel ath wrthod di (fy Nuw) yngwrthwyneb dy ſanctaidd orchmynion, ie yn erbyn cynnorthwyad dy râs iw cadw ai cyflawni, a hyn a wneuthum am bethau gwael, a dibris, yn gymaint am bôd yr awrhon yn haeddu cael fyngwrthod genit, a chael fy nifeddiannu oth gyfarwyddyd ath ymddiffyn, ac i gael fyngadel am rhoi i fynu i fôd tan ewyllys, a dwylaw gelynion creulon fy enaid, am corph. Er hynny, O Arglwydd daionus, fe fy yn wiw gennit oth rhâdfawr dirion-deb tu ag attaf, roddi i mi y moddion i allu chwilio, a chael gweled fynghyflwr, ac

ymholi

ymholi fy hûn yngylch fymhechodau, tra i gellir i iachau ai trîn a chyn darfod i gyhyddiad y Cythrael dynnu dy ddialedd arnaf oi achôs, ſef tra i gadewir i mi fyw, a thra y parhatho yr amſer cymmeradwy hwn, y dydd iechydwriaeth hwn: O Arglwydd daionus, cyflawna yr hyn a ddechreuaiſt ynof, dyro i mi edifeirwch calon, a galar diragrith am yr hyn aeth heibio a bwriad dianwadal, a llownfryd i wellau fy muchedd o hyn allan. O gâd i mi gaêl dy ewyllys da drachefn, fel y gallwyf orſfwys yn dy gariad (O fy anwyl Dâd) y mae hiraeth arnaf, nês adnewyddu y gymdeithas gariadus oedd i

migyda thi, cyn im pechodau i thorri am dieithro oddiwrth it, Tydi yr hwn am gwaredaiſt oddiwrth fymhechodau, ac am tynnaiſt ir deiſyfiadau goſtyngedig yma, dwg ymlaen y deiſyfiadau hynny i berffeithrwydd, ailunha a chyſſullta ſi eilwaith ath di dy hun, ac ymfodloner fynghalon felly ath dy odidowgrwydd di ſydd drarhagorawl, fel na thrachwantwyf mwy am ddifyrrwch, elw, ac anrhydedd y byd hwn, cyn belled a cholli o honof y caredigrwydd ir wyf yn i obeithio i bydd yn wiw gennit i ddangos i mi y nôs hon. O Arglwydd gwrando, ac atteb fy erfynnion am dei-

deiſyfiadau hyn yn raſuſol, ar cwbl oll ſydd angenrheidiol, er cariad ein Harglwydd an Jachawdwr Jeſu Griſt.

AMEN.

Na rvvgnach gymeryd ychydig boen yn y bywyd a dderfydd yn ddiſymmvvth, er mvvyn cael byvvyd a beru byth.

Hymn neu Emyn.

O Arglwydd arnat i mae 'mhwys,
Gwêl gyſtydd dwys fyn-ghalon:
A phan welech di fôd yn dda,
Eſmwytha arna 'n dirion.

'Tia weli ynghyſtydd pa faint yw,
Fyngriddfan Duw di ai gwyddoſt:

Nidoes neb arall all iachau
Fy mriwiau ſydd mor flin-
doſt.

Danfon ditheu im gymmorth
cryf,
Ir wyf mor hyf ai ofyn:
Dy drugareddau parod ynt,
I bawb ydynt yn erfyn.

A chan dy fôd yn gwel'd ar
lêd,
Galetted ydiw arnaf:
Gwrando fynghwynfan to-
ſtyr yw,
Dy 'mwared Duw goru-
chaf.

Cans pechod megis niwl, neu
darth,
Sy o bôb parth im cylchu:

Heb

Heb borth na nodded im hyd fedd,
Ond dy drugaredd Jeſu.

Oblegid ni all dyn marwol byth
Roi Seibiant ith greadur:
Na dim or byd ond Crîſt fy nêr,
Roi ſmwythder im bechadur.

Tywalldodd ef ei waêd yn llî,
Er fy mwyn i'n wllyſcar:
Fel na bydde tra fawn byw,
Rhyngof a Duw ddim yſcar.

Ai archollion ef er fy mael,
Maent etto i gael i gweled:
Trwy fuwiol ffydd (daionus waith)

A

A gobaith iw hyſtyried.

A gogoneddus Scinctieu 'r
Ne,
Sydd yn eicartre 'n barod
Yrhain ai gwelant ef bôb
dydd,
A golwg rhydd yn hynod.

A chwedi ymddioſc or corph
hwn,
I weled (gwn) câf inne:
Iw gydfoliannu gyd ar Scinct'
Sy 'n awr mewn braint
ddiamme.

Er bôd 'fy mhechod (rhwy-
ſtrus waith)
Yn oedi 'nhaith tu ag atto:
Nes ym Harglwydd wel'd yn
dda,
Fyngalw o dd'yma yno.

Ond

Ond fel nam lluddier yn y peth,
Sydd hireth mwya im calon:
Moes im dy gymmorth Duw ar frys,
Im tywys at yr inion.

Rhag i mi droedio y rhy frau,
Ddrwg lwybrau y pechadur:
Ac oddiwrthyt fôd fy hynt,
Am helynt fel ffoadur.

Dy râs yn inig all fy nal,
Am cynnal i rhag taro
Fy nhroed wrth bôb tramgwydd blîn,
Sy' wrth fin y ffordd im rhwyſtro.

Am hynny erfynniad f'enaid yw,
Attat ti Duw 'r trugaredd:
Am râs drwy Grift im dwyn ir Ne,
Tan faddeu fy anwiredd.

Yno fynghalon a ymrydd,
A chyflavvn ffydd fynhafod
I gydfoliannu 'r neb ai rhoes,
Tros f'einioes byth trvvy favvr glôd.

M. E.

Printiedig yn Rhydychen ar draul (neu gôſt) S. S.á Maur, R. 1658.

aid

dd:
yn

d.

ha-

es,
vy

ar